

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Pierce Roberts

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

7^{fed} o Fai 2013

Presennol: Huw P Roberts (Cadeirydd), Huw Antur (is Gadeirydd), Beryl Hughes Griffiths, Karl Jones, Alwyn Roberts, Dewi Jones, Heledd Jones, Catrin Roberts

Alan Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Ymddiheuriadau: Arwel Lloyd Jones, Ian Trow, Rhodri Jones

- 1 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2012
- 2 Etholwyd Huw Antur yn Gadeirydd
- 3 Ethol Dewi Jones yn Is-gadeirydd
- 4 Penodwyd is bwyllgor Cyllid: Y Cadeirydd, Yr is-gadeirydd, y Swyddog ariannol a'r Clerc
- 5 Penodi is-bwyllgor mynwentydd: Y Cadeirydd, Karl Jones, Arwel LL Jones, Ian Trow, Hywel Evans a'r Clerc
- 6 Enwebwyd Huw P Roberts yn gynrychiolydd i gyfarfodydd ardal Un Llais Cymru (Huw Antur yn ddirprwy)
- 7 Cadarnhau enwn Catrin Roberts fel cynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol O M Edwards
- 8 Cadarnhawyd y Cytundeb rhwng y Cyngor Cymuned fel aelod o Bartneriaeth Penllyn â Chyngor Gwynedd
- 9 Enwebu Huw Antur a Beryl Hughes Griffiths yn ddau gynrychiolydd ar Bartneriaeth Penllyn
- 10 Cadarnhawyd y Rheolau Sefydlog y Cyngor (sy'n cynnwys Côt ymddygiad yr aelodau)
- 11 Mabwysiadwyd Polisi Amgylcheddol y Cyngor Cymuned
- 12 Mabwysiadwyd Polisi Cyfle Cyfartal y Cyngor
- 13 Mabwysiadwyd trefniadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- 14 Mabwysiadwyd Trefn Cwynion y Cyngor
- 15 Mabwysiadwyd y Rheoliadau Cyllidol a'r Asesiad Risgiau Ariannol
- 16 Adolygwyd rhestr o eiddo ac asedau'r Cyngor
- 17 Adolygu a chadarnhau'r trefniadau yswiriant, gyda'r Cadeirydd ac Arwel LL Jones i edrych yn fanwl ar gynigion y ddau gwmni; cytunwyd i wirio a ydy'r ddwy fynwent yn yr yswiriant

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Pierce Roberts

Cytunwyd i'r Clerc dynnu sylw'r Eglwys yng Nghymru ar bryderon am ddiogelwch y Porth a'r llechi sydd arno.

18 Derbyniwyd y Mantolenni Ariannol. Cadarnhawyd adroddiad y Swyddog Ariannol ar gyfer yr Archwilwyr ac arwyddwyd rhan gyntaf y ddogfen.

Cytunwyd i ofyn i John Roberts archwilio'r llyfrau ariannol.

Sylwyd ar y ffioedd ychwanegol am gladdu yn ystod y penwythnos.

19 Cadarnhawyd dyddiad cyfarfodydd 2013-14 (nos Fawrth cyntaf pob mis, heblaw mis Awst)